Helo a chroeso i rifyn mis Medi Newyddion y DBS.

Mae fy nghyflwyniadau diweddaraf i Newyddion y DBS wedi canolbwyntio ar newidiadau deddfwriaethol diweddar ac effaith hyn arnoch chi, arnon ni ac ar heddluoedd. Er ein bod yn dal i weld rhai problemau wrth i'r newidiadau hyn setlo i mewn, a delio gyda'n cynnydd tymhorol ein hunain mewn niferoedd, mae ein hamserau trosiant yn dechrau gwella eto. Rydym yn gweithio fel lladd nadroedd i fodloni'r galw cynyddol, yn arbennig gan fod nifer ohonoch angen cyngor ar y newidiadau, ac yn gofyn am adroddiadau cynnydd ar y ceisiadau hynny sydd yn nwylo ein cydweithwyr yn yr heddlu. Rydym wedi symud staff o dimau sy'n ymwneud â gwaith y mae llai o frys amdano i helpu, ac yn darparu gwasanaeth galw yn ôl poblogaidd iawn.

Rydym wir yn gwerthfawrogi eich amynedd yn ystod y cyfnod prysur hwn a'ch ymdrechion clodwiw i ymateb i'r newidiadau.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar awgrymiadau pellach i gwblhau ceisiadau datgeliad – gyda'r ddau fater mwyaf yn dal i fod: Adrannau x61 ac x66. Mae gennym bellach arweiniad gweithlu ar ein gwefan fydd yn ddefnyddiol wrth i chi gwblhau adran x61 ac rydym wedi darparu enghreifftiau penodol yn ein herthygl gweithio yn y cartref i arddangos y da a'r drwg o ran x66.

Gwyddom fod llawer ohonoch yn gweithio tu allan i oriau swyddfa, felly rydym yn datblygu ein e-ganllaw cyntaf i ffurflenni datgeliad. Mae rhai ohonoch wedi bod yn ein helpu i brofi hyn, a gobeithiwn y bydd ar gael erbyn canol Hydref. Gobeithio'ch bod yn hoffi'r cipolwg o flaen llaw yn y rhifyn hwn.

Mae'n amlwg fod angen cyngor parhaus am gwblhau ffurflenni cais, felly o'r mis nesaf ymlaen, bydd y rhai ohonoch sy'n gweithio gyda gwiriadau cofnodion troseddol yn derbyn yr wybodaeth hon yn uniongyrchol gan Sue Quigley, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliadau).

Byddwn yn newid ffocws Newyddion y DBS i gwmpasu'n holl wasanaethau ar yr un pryd, felly edrychaf ymlaen at rannu hyn gyda chi yn yr hydref. Rhowch wybod i mi beth yr hoffech ei weld.

Wrth gwrs, os oes yna unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i chi, rhowch wybod i ni. Mae'n fanteisiol i ni gael gwybod sut y gallwn eich helpu i ddiogelu'r cyhoedd.

**Adriènne Kelbie**
**Prif Weithredwr**

---

## Deall Gweithluoedd

Fel y gwyddoch, rhaid i ni ddychwelyd unrhyw ffurflen gais bapur nad yw'n cynnwys y gweithlu perthnasol a'r swydd yr ymgeisiwyd ar ei chyfer yn adran x61.

Mae'n allweddol eich bod yn cwblhau'r cwestiwn yn gywir. Mae ffurflenni sy'n cael eu cwblhau'n anghywir yn cymryd tipyn mwy o amser i ni eu prosesu gan fod angen i ni sefydlu'r wybodaeth gweithlu yn gyntaf trwy anfon llythyrau ymholi atoch neu wneud galwadau ffôn i ymholi. Mae hyn yn arafu'r broses i bawb ac yn creu ôl-groniadau yma ac yn ein heddluoedd, sy'n achosi oedi i chi yn eich prosesau recriwtio.

Rydym wedi rhestru'ch adborth ac wedi gweithio'n galed i lunio tair dogfen arweiniad i egluro'r gweithluoedd a'ch helpu wrth gwblhau'r adran gweithlu ar y ffurflen. Gellir dod o hyd i'r rhain yma ar ein gwefan.

Nid yw'r dogfennau yn rhestr gynhwysfawr o'r holl amodau y mae'n rhaid eu cymhwyso i'r rôl fod yn gymwys; rhaid i chi fodloni'r meini prawf cymhwysedd cyfreithiol hefyd cyn i chi ystyried y gweithlu. Fodd bynnag, gobeithiwn y byddant yn eich darparu â'r canllaw angenrheidiol i gefnogi eich penderfyniadau.

I'ch atgoffa o sut i gwblhau'r adran hon yn gywir, **RHAID** i Linell 1 maes x61 gynnwys y gweithlu perthnasol, a **RHAID** i Linell 2 maes x61 gynnwys y swydd yr ymgeisiwyd amdani.

Ceir tri math o weithlu:

- Plant
- Oedolion
- Arall

Pan fo'r rôl yn cynnwys gweithio gyda Phlant **ac** Oedolion, bydd angen i chi gwblhau llinell 1 x61 fel *Gweithlu Plant ac Oedolion*.

Cymrwch olwg ar ein henghreifftiau isod.

**Gweithlu Plant**

Wedi edrych ar sampl o geisiadau, rydym wedi canfod fod rhai ohonoch yn cwblhau adran x61 gweithlu gyda gweithlu 'Arall' er bod y swydd yr ymgeisiwyd amdani yn ymwneud â gweithio gyda phlant.

Dangosodd ein sampl y rhoddwyd croes ar ‘Arall’ y ffurflen ar gyfer dros 200 o geisiadau am swyddi glanhawyr mewn ysgolion fel gweithlu. Er nad yw’r swyddi hyn yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant yn yr un modd ag y mae addysgu, **mae** o fewn amgylchedd ysgol ac felly mae’r athro a’r glanhawr ysgol yn y **gweithlu ‘Plant’**. Mae hyn hefyd yn berthnasol i rolau eraill nad ydynt yn rhai dysgu neu ofalu sy’n digwydd mewn sefydliadau sy’n gyfan gwbl neu’n bennaf at gyfer plant, megis ysgolion, meithrinfeydd, cartrefi plant.

Dyma ambell enghraifft arall a ganfuom ble nodwyd gweithlu ‘Arall’ yn adran x61 pan ddylai fod yn weithlu ‘Plant’:

- Aelodau o gartrefi maethu, gwarchod plant neu ofal plant sy’n oedolion. Nid oes ganddynt rôl o ofalu am y plentyn ond **maent** mewn amgylchedd ble mae’r plentyn yn ganolog felly dylent roi gweithlu ‘Plant’ yn adran x61, llinell 1 ar gyfer y mathau hyn o swyddi.

- Rydych chi’n gwneud pethau’n iawn pan fyddwch yn nodi’r gweithlu ‘Arall’ ar gyfer ceisiadau am gais trwyddedu tacsi neu yrrwr car preifat. Fodd bynnag, fel enghraifft, unwaith y bydd y gyrrwr wedi sicrhau ei drwydded ac yna y bydd ei gyflogwr/sefydliad arall yn gofyn iddo gludo plant i ac o’r ysgol, dylid defnyddio gweithlu ‘Plant’ ar y cais newydd hwnnw.

- Yn yr un modd, mae gyrrwr bws hefyd yn y gweithlu ‘Plant’.

**Gweithlu Oedolion**

Rydym wedi canfod patrwm tebyg yn y gweithlu ‘Oedolion’ gyda glanhawyr neu staff ategol mewn cartrefi gofal wedi defnyddio ‘Arall’ yn adran x61, llinell 1 yn hytrach na gweithlu ‘Oedolion’.
Er nad yw’r gwaith hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth yn y cartref gofal yn yr un modd ag y mae staff sy’n darparu gofal personol neu ofal iechyd yn gwneud, maent yn gweithio mewn amgylchedd sy’n darparu ar gyfer oedolion sydd angen y gwasanaethau hynny. Felly mae glanhawyr a staff ategol mewn cartrefi gofal yn y gweithlu ‘Oedolion’ a dylid nodi hyn ar gyfer y swyddi hyn yn adran x61, llinell 1.

Pan fyddwch yn gyrru oedolion i neu o le ble byddant yn mynychu gweithgaredd sydd wedi ei gynllunio ar gyfer eu hanghenion oherwydd eu hoed, iechyd neu anabledd, er enghraifft, canolfan ddydd, yna rydych yn y gweithlu Oedolion er nad yw hyn bellach yn Weithgaredd Rheoledig.

I’ch helpu ymhellach, mae’r Adran Iechyd wedi drafftio Nodyn Ffeithiol ar Gymhwyster ar gyfer Gwiriadau DBS yn y gweithlu ‘Oedolion’. Cliciwch yma i fynd yn syth ato.

**Gweithlu Arall**

Ychydig iawn o rolau sy’n gymwys ar gyfer gwiriad DBS Manwl ac sydd yn y gweithlu ‘Arall’.

Yr unig swydd yn y gweithlu ‘Arall’ sy’n gymwys i ofyn am wybodaeth rhestr gwahardd plant neu oedolion yw ceisiadau am drwyddedu tacsis neu gerbydau hurio preifat.

---

## Sut i gael Yn y Cartref yn iawn

Mae llawer ohonoch yn dal i gael trafferthion wrth gwblhau adran x66 y ffurflen gais. Mae ffurflenni cais anghywir yn aml yn arwain at oedi ac anghyfleustra i chi ac ymgeiswyr, felly rydym eisiau gweithio gyda chi i gael hyn yn iawn.

Beth sydd angen i chi ei ystyried cyn i chi ateb x66:

- Ble mae’r ymgeisydd (p’un ai’n gweithio’n wirfoddol neu’n gyflogedig) yn cyflawni prif ddyletswyddau’r swydd?
- A yw’r gwaith yn digwydd yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd ei hun, neu a yw’n digwydd yng nghartref rhywun arall?

**Os yw’r ymgeisydd yn gweithio o’i gartref ei hun, yn darparu gwasanaeth neu ofal o’r lle ble maent yn byw – rhowch groes ar gyfer yr ateb cadarnhaol yn x66.**

**Os yw’r ymgeisydd yn darparu gwasanaeth neu ofal tu allan i’r man ble mae’n gweithio ei hun, ac yn mynd i gartref rhywun arall – rhowch groes ar gyfer yr ateb negyddol yn x66.**

I’ch helpu i ddeall mwy am sut i lenwi adran x66 yn gywir, rydym wedi adolygu sampl o ffurflenni a gwblhawyd yn anghywir ac wedi amlygu gwallau cyffredin i chi:

- **Proffesiynau meddygol – Myfyriwr Nyrsio / myfyriwr meddygol / meddyg / nyrs practis / seicolegydd / ffisiotherapydd.**

Rydym yn deall y gofynnir i rai gweithwyr meddygol weinyddu gofal iechyd i bobl nad ydynt yn gallu ymweld â’r feddygfa neu ganolfan gofal iechyd; fodd bynnag, maent yn cyflawni eu gwaith yng **nghartref y claf ei hun**. Felly, nid yw’n alwedigaeth yn y cartref.

Gall fod adegau pan fydd meddygfa gweithiwr meddygol yn rhan o’i gartref ei hun. Mae angen i chi benderfynu a ddylid nodi fod hyn yn alwedigaeth yn y cartref.
Ar y cyfan, nid yw’r rhan fwyaf o geisiadau am swyddi meddygol yn alwedigaethau yn y cartref.

- **Gofal Cymdeithasol i oedolion – Gweithiwr gofal cartref / gofalwyr / cyfaill gwirfoddol / unigolyn cyfrifol / gyrwyr danfon.**

Ar gyfer y gweithlu Oedolion, mae’r Adran Iechyd wedi cadarnhau mai dim ond yr unigolion hynny sy’n cymryd rhan yn y rhaglen Rhannu Bywydau (Shared Lives) ddylid eu dosbarthu fel galwedigaeth yn y cartref. Hefyd, mae hyn yn ymestyn i brif ofalwyr yr oedolyn yn unig, ac nid aelodau’r cartref hwnnw sy’n oedolion.

**Beth yw’r rhaglen Rhannu Bywydau?**

Yn flaenorol fe alwyd hyn yn lleoliad oedolyn, ac mae’n disgrifio pan fydd gofalwyr yn rhannu eu bywyd teuluol a chymunedol gyda rhywun sydd angen cefnogaeth i fyw’n annibynnol. Mae gofalwyr Rhannu Bywydau yn cefnogi oedolion anabl, pobl hŷn gyda dementia, a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Os yw’ch cyflogai yn gweithio mewn cartref gofal, llety gwarchod neu’n mynd i gartref preifat unigolyn i gyflawni ei ddyletswyddau, yna nid ydynt mewn galwedigaeth yn y cartref.

- **Proffesiynau addysgu – Athro / athro cyflenwi / cynorthwyydd dosbarth / mentor / cymorth dosbarth / darllenwr gwirfoddol**

Mae’r rhan fwyaf o’r swyddi hyn yn digwydd mewn amgylchedd ysgol ac nid yng nghartref yr athro. Felly, nid ydynt yn cyflawni rôl galwedigaeth yn y cartref.

Efallai y bydd rhai achlysuron pan fydd plentyn yn mynd i gartref preifat i dderbyn rhyw fath o ddysgu neu gyfarwyddyd. Pan fydd dysgu neu gyfarwydd o’r fath yn digwydd yng nghartref preifat yr athro, byddech yn ystyried hyn i fod yn y cartref.

Ymysg yr enghreifftiau gwallus diweddar o yn y cartref a dderbyniom mae:

- Achubwr bywydau

- Darllenwr eglwys
- Gyrrwr tacsi
- Adeiladwr
- Lleoliad carchar.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall beth *sydd* a beth *nad yw* yn waith yn y cartref.

**Mae gwiriadau yn y cartref yn chwarae rhan werthfawr yn ein gwasanaeth i chi.**

Pan ofynnir am wiriad yn y cartref, mae'r heddlu yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt parthed y cyfeiriad ar y ffurflen gais. Os ydynt yn pennu ei fod yn angenrheidiol, byddant yn rhyddhau gwybodaeth ar y dystysgrif nad yw yn uniongyrchol gysylltiedig â'ch cyflogai, ond ynglŷn â phobl sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw, neu gydnabyddion hysbys eich cyflogai neu ymwelwyr i'r cyfeiriad hwnnw.

Gall gwybodaeth trydydd parti fod yn ddefnyddiol i gyflogwyr; mae'n eu galluogi i asesu'r risg o leoli plant neu oedolion, sydd angen gofal neu gymorth, mewn cartref.

Fodd bynnag, os ydych chi'n ticio'r blwch hwn ar gam, gallech fod mewn sefyllfa ble bydd gennych fynediad at wybodaeth nad oes gennych unrhyw awdurdod i'w gweld. Ni ddylech ei defnyddio i wneud penderfyniad recriwtio neu efallai y bydd yn anodd i chi brofi na wnaethoch ei defnyddio i ddiswyddo rhywun neu wrthod eu cyflogi.

Mae'r heddlu yn aml yn cysylltu â ni i gadarnhau fod swydd yn un yn y cartref cyn bwrw ymlaen â'u gwiriadau. Yna bydd angen i ni gysylltu â chi; gall hyn osgoi oedi diangen yn eich proses recriwtio.

---

## Tystysgrifau ymgeisydd yn unig: pam newid?

Rydym yn deall fod cyflwyno'r dystysgrif ymgeisydd yn unig yn achosi anhawster i rai ohonoch. Cyflwynwyd y newid hwn gan y Llywodraeth ac rydym yn ymddiheuro os nad yw'r rhesymau dros y newid wedi eu hesbonio'n llawn i chi.

Wrth edrych ar y system cofnodion troseddol flaenorol, roedd y Llywodraeth yn awyddus i ddeall yr anawsterau yr oeddech yn eu hwynebu wrth ei defnyddio. Comisiynodd adolygiadau o'r cynllun fetio a gwahardd a'r gyfundrefn cofnodion troseddol gyda'r bwriad o'u cwtogi i lefelau synnwyr cyffredin.

Gwnaeth yr adolygiadau nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau.  Fe ystyriodd y Llywodraeth y rhain a gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth a ddaeth yn gyfraith yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Roedd nifer o'r newidiadau er mwyn sicrhau cyfranoledd ac i roi mwy o reolaeth i'r ymgeisydd dros ddatgelu ei wybodaeth.

Roedd hyn yn cynnwys tystysgrif i'r ymgeisydd yn unig, oedd yn terfynu'r arfer o anfon copïau o dystysgrif DBS yn awtomatig at Gyrff Cofrestredig/Cysgodol. Mae dau reswm allweddol dros y newid hwn:

- I ganiatáu i'r ymgeisydd herio ac, os yn briodol, gywiro unrhyw wybodaeth anghywir, neu unrhyw wybodaeth na ddylid ei datgelu, cyn i gyflogwr posibl ei gweld. Ni ellir 'dad-weld' gwybodaeth anghywir wedi ei datgelu, a gallai gael effaith andwyol ar ymgeiswyr sy'n ceisio cyflogaeth neu waith gwirfoddol.

- Mae'n darparu'r ymgeisydd gyda mwy o reolaeth dros ddatgelu gwybodaeth i gyflogwr. Er enghraifft, gallant ddewis trafod amgylchiadau unrhyw wybodaeth troseddolrwydd yn uniongyrchol gyda chyflogwr cyn darparu'r dystysgrif.

Cefnogwyd y newid hwn trwy gryfhau'r sail i ddatgeliad gwybodaeth leol gan yr heddlu. Mae hyn nawr yn sicrhau fod yn rhaid i brif swyddog yr heddlu gael cred resymol fod yr wybodaeth hon yn berthnasol i ddiben y datgeliad. Mae hefyd yn darparu elfen annibynnol i ddatrys anghydfod trwy Fonitor Annibynnol y DBS.

Cydnabuwyd erioed ei bod yn bosibl fod angen i chi newid eich trefniadau gweinyddol i dderbyn tystysgrifau ac rydym yn ceisio gwneud hyn mor syml â phosibl. Rydym wedi gwrando ar eich adborth ac yn datblygu gwasanaeth i chi wirio cynnydd cais ac a yw tystysgrif yn glir o unrhyw wybodaeth troseddolrwydd – mae hyn eisoes ar gael ar gyfer ein defnyddwyr e-bulk.

Bydd cyflwyno'r Gwasanaeth Diweddaru yn golygu na fydd rhaid i filiynau o gyflogeion a gwirfoddolwyr wneud cais am wiriad cofnodion troseddol newydd pob tro y byddant yn ymgeisio am swydd o hyn ymlaen. Yn hytrach, dim ond unwaith fydd angen iddynt wneud cais am dystysgrif a gallant fynd ar-lein i wirio ar unwaith er mwyn gweld a yw eu tystysgrif bresennol yn dal yn gyfredol.  Bydd hyn yn cyflymu'r broses recriwtio, gan arbed amser ac arian a'i gwneud yn haws i bobl newid swyddi yn yr un sector wrth sicrhau fod mesurau diogelu cadarn ar waith.

---

## Gwasanaeth Diweddaru: Gwneud i Wiriadau Statws weithio i chi

Nawr fod dros filoedd eisoes yn elwa 15,000 o unigolion wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru er mwyn gallu mynd â'u tystysgrif o rôl i rôl neu ganiatáu i'w cyflogwr gyflawni ail wiriad cyflym, bydd hyd yn oed mwy ohonoch yn gallu elwa.

Y tro nesaf y byddwch yn recriwtio rhywun neu'n ail wirio eu Tystysgrif DBS, gallwch fanteisio ar Wiriadau Statws ar-lein am ddim ac ar unwaith os ydynt wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru. Gyda chaniatâd yr unigolyn, gallwch ddefnyddio eu Tystysgrif DBS cyfredol a chyflawni Gwiriad Statws i weld a oes unrhyw wybodaeth newydd wedi dod i law ers ei chyhoeddi.

Os hoffech gyflawni Gwiriadau Statws, ond nad yw'r unigolyn wedi tanysgrifio, dylech ei annog i wneud hynny wrth wneud cais am ei Wiriad DBS nesaf yn www.gov.uk/dbs-update-service. Ble fo'n bosibl, rhowch y cyfeirnod cais iddo er mwyn iddo allu tanysgrifio ar unwaith. Os yw'n anghofio tanysgrifio ar y pryd, bydd cyfle arall i wneud hynny pan fydd yn derbyn ei Dystysgrif DBS.

I danysgrifio gyda'i rif Tystysgrif DBS, rhaid gwneud hynny **o fewn 14 diwrnod** i ddyddiad cyhoeddi'r Dystysgrif DBS.

**Angen cyflawni llawer o Wiriadau Statws?**

Os ydych chi'n poeni y gall cyflawni nifer fawr o Wiriadau Statws gymryd amser maith, peidiwch! Trwy gyflawni Gwiriadau Statws lluosog yr un pryd, byddwch yn elwa o ddefnyddio'r cyfleuster Gwiriad Statws Lluosog a gyflwynwyd i'ch galluogi i wneud nifer anghyfyngedig bron o Wiriadau Statws ar unwaith.

**Dyma sut:**

Bydd angen i chi drefnu i'ch sefydliad neu adran TG ddatblygu'r system, neu allu o fewn eich system bresennol, i gyflwyno gwiriadau lluosog.

Rydym wedi cyhoeddi canllaw newydd a gwell i helpu'ch sefydliad i wneud hyn. Gellir ei wneud yn gyflym a syml; mae'r holl wybodaeth angenrheidiol i ddatblygu'r system wedi ei chynnwys yn y canllaw Cyfleuster Gwirio Statws Lluosog y Gwasanaeth Diweddaru.

**Manteision i chi**

- Gwiriadau ar-lein cyflym o Dystysgrifau DBS.
- Gallu i gyflawni nifer fawr o wiriadau ar yr un pryd.
- Dim mwy o ffurflenni cais DBS dyrys i'w cwblhau.

- Efallai na fydd rhaid i chi wneud cais am wiriad DBS i gyflogai byth eto.
- Arbed amser ac arian i chi.
- Hybu eich prosesau diogelu ac fe allai helpu i leihau'ch risgiau.
- Hawdd ei gynnwys yn eich prosesau presennol i wneud penderfyniadau ar addasrwydd.
- Llai o fiwrocratiaeth.

---

## Cyflwyno ein e-ganllaw

Y mis diwethaf, fe ddywedom wrthych fod e-ganllaw yn cael ei ddatblygu i gymryd lle ein digwyddiadau hyfforddiant. Mae hyn yn unol â'n Hegwyddorion; ymroddiad i gyflawni gwasanaethau, ble fo'n bosibl, sy'n ddigidol yn ddiofyn. Mae rhai ohonoch nawr wedi profi'r canllaw a rhoi'ch adborth i ni. Diolch i chi am gymryd yr amser i wneud hyn. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'n helpu i deilwra'r canllaw i fodloni'ch anghenion.

Nod y canllaw yw eich helpu i leihau'r nifer o ffurflenni cais a wrthodwyd oherwydd gwallau. Yn ddiweddar, cafwyd nifer o newidiadau i sut ydych chi'n llenwi'r ffurflen gais, ac mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn yr e-ganllaw. Rydym yn falch iawn fod pawb a gymrodd ran mewn profi yn credu y bydd yr e-ganllaw yn helpu i leihau gwallau wrth gwblhau'r ffurflen gais.

Isod ceir rhagolwg bychan o beth i'w ddisgwyl o ran cyfarwyddiadau pan fyddwch yn defnyddio'r e-ganllaw:

Rydym eisiau i'r cynnyrch terfynol fod yn hawdd i'w ddefnyddio, felly mae'n bleser gennym glywed eich bod o'r farn fod y canllaw yn "ddefnyddiol iawn, ac yn glir a hawdd i'w ddefnyddio". Dywedodd un ymatebwr: "fel rhywun sy'n cael anhawster gyda TG, roedd yn hawdd iawn i'w ddefnyddio a'i ddeall."

Roedd eich cefnogaeth wrth gyflawni profion yn y camau cynnar yn help i ni nodi rhai materion ymarferol. Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a gymeroch i'n helpu i gael y canllaw hwn yn iawn. Rydym nawr wedi datrys y materion hyn, ac yn bwrw ymlaen gyda'r paratoadau terfynol.

Edrychwn ymlaen at rannu'r e-ganllaw gyda chi yn fuan ar ein gwefan.

---

## Datgloi Gwiriadau Cofnodion Troseddol

Gall ceisio trawsnewid eich bywyd wedi euogfarn neu rybudd fod yn anodd – yn arbennig wrth wneud cais am swydd newydd. Er ein bod yn darparu gwybodaeth i'ch helpu i recriwtio'r bobl addas i'r rôl, ni ddylai cael cofnod troseddol atal rhywun rhag cael swydd neu hyd yn oed wneud cais am un.

I helpu i ddod â rhywfaint o eglurder, rydym wedi dod ynghyd gydag Unlock, yr elusen genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl gydag euogfarnau, i gyhoeddi canllaw manwl ynglŷn âphroses gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i bobl sydd â chofnod troseddol.

Enw'r canllaw yw 'Unlocking Criminal Record Checks' ac mae ar gael yma o wefan Unlock. Mae'n cynnwys gwybodaeth fydd yn helpu unigolion a gollfarnwyd i ddeall sut mae'r broses yn gweithio a sut mae hyn yn effeithio arnynt.

Ynghyd â'r canllaw, mae Unlock wedi cyhoeddi dwy erthygl yn ddiweddar fydd wir yn helpu ymgeiswyr gyda chollfarn neu rybudd i ddeall ychydig yn fwy am ddelio gyda'u cofnod troseddol ym myd gwaith:

- *'Ways to find out about your criminal record' sydd* ar gael yn yma
- *'Disclosing your convictions to employers' sydd* ar gael yn yma

Credwn y byddant yn ddefnyddiol iawn i chi – ynghyd â'r canllaw – felly mae croeso i chi eu rhannu gydag eraill neu gyfeirio ymgeiswyr, cydweithwyr a sefydliadau sy'n gweithio gyda chi atynt.

Gallwch helpu unrhyw ymgeisydd sy'n poeni am fod â chofnod troseddol trwy roi rhif Llinell Gymorth Unlock iddynt. Dylent ffonio 01634 247350 a dewis 1 neu ddefnyddio'r amrywiol ddulliau eraill a restrir yma i gysylltu.

Gall Unlock ddarparu cyngor i ymgeiswyr a chynnig cefnogaeth i sefydliadau sy'n recriwtio pobl gyda chollfarnau. Os ydych chi eisiau cysylltu ag Unlock, anfonwch e-bost iddynt ar enquiries@unlock.org.uk neu ffoniwch 01634 247 350.

---

## Ffyrdd eraill o gael diweddariadau

Yn ogystal â chofrestru i'n cronfa ddata electronig i dderbyn diweddariadau am bynciau sydd o ddiddordeb i chi, wyddech chi mai ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â'n holl newyddion a diweddariadau i ganllawiau yw trwy danysgrifio i hysbysiadau e-bost trwy'n gwefan?

Pan fydd stori newyddion yn cael ei hychwanegu, neu os byddwn yn gwneud newid i ddogfen canllaw ar y safle, gallwch ddewis derbyn hysbysiad.

Rheolir y negeseuon e-bost hyn gan GOV.UK felly'r cyfan sydd angen i chi ei wneud ywcofrestru! Dyma sut:

- Ewch i www.gov.uk/dbs a sgrolio i lawr y dudalen nes eich bod yn gweld y blwch 'Hysbysiadau diweddaraf':

- Cliciwch ar y ddolen 'hysbysiadau e-bost'. Yna gallwch ddefnyddio blychau'r gwymplen i ddewis y math o wybodaeth yr hoffech gael eich hysbysu amdano